



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board

2019/20

BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BAE ABERTAW ADRODDIAD AR Y PRIF BWYNTIAU

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ym mis Ebrill 2019 ac mae'n gofalu am anghenion iechyd pobl Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, yn ogystal ag yn comisiynu, cynllunio a darparu gofal iechyd ar eu cyfer. Nid yw'n ymgymryd â'r gwaith hwn ar ei ben ei hun ac mae ganddo gysylltiadau cryf ag awdurdodau lleol a sefydliadau eraill GIG Cymru, yn ogystal â threfniadau partneriaeth rhanbarthol megis byrddau gwasanaethau cyhoeddus a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg.

Ein bwriad yw i'r Bwrdd Iechyd symud i fod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar iechyd y boblogaeth, gan gomisiynu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion y claf ac anghenion y gymuned. Mae'r ddau nod strategol, *Cefnogi Iechyd Gwell* a *Cyflawni Gofal Gwell*, a'r amcanion galluogi sy'n gysylltiedig â'r rhain, yn glir o ran ein huchelgais i newid, a byddant yn canolbwyntio fwyfwy ar weithio gyda'n partneriaid er mwyn gwella lles ein poblogaeth.



Blwyddyn Fythgofiadwy

Fe ddechreuom fel sefydliad gwahanol ym mis Ebrill 2019, wedi i'r cyfrifoldeb comisiynu ar gyfer poblogaeth Pen-y-Bont ar Ogwr gael ei drosglwyddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Er y tristwch wrth golli cydweithwyr a oedd yn symud i sefydliad arall, roedd cyffro hefyd wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau a'n huchelgeisiau ar gyfer Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Ni allai neb fod wedi rhagweld y byddem yn gorffen y flwyddyn ar adeg mor heriol, nid yn unig ar gyfer y Bwrdd Iechyd, Cymru a'r DU, ond yn fyd-eang hefyd, wrth i'r byd barhau i ymateb i bandemig Covid-19. Mae'r ymroddiad a'r ymateb rydym wedi eu gweld gan ein staff wrth i'r pandemig ddwysáu wedi bod yn rhyfeddol, gan dystio i waith caled ac ymroddiad ein pobl yn eu swyddi o ddydd i ddydd. Rydym yn cydnabod bod hon yn adeg hynod o ofidus a phryderus i ni i gyd gan nad ydym ni, wrth lunio'r ddogfen hon, yn gwybod beth a ddaw yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn glir bod yn rhaid achub ar bob cyfle i ddysgu o'r newidiadau sylweddol rydym wedi'u gwneud a chadw'r gwelliannau lle bynnag y bo hynny'n bosib.

Er bod ein hadroddiad blynyddol yn cynnig dadansoddiad manwl o'r holl waith a wnaed gennym rhwng y ddau ddigwyddiad allweddol y sonnir amdanynt uchod, rydym wedi dewis rhai uchafbwyntiau o blith nifer i chi eu hystyried yn y ddogfen hon.

Diolchwn i'n staff, ein cleifion, ein partneriaid, a'n cymunedau lleol am ein cefnogi i barhau i ddarparu gofal i'n cleifion a gwella iechyd ein poblogaeth leol.

Cadwch yn ddiogel ac yn iach,

Yr Athro Tracy
Myhill CEO



Trosglwyddo'r Awenau

Ffarwelwyd â'n Cadeirydd, Andrew Davies, ym mis Mehefin 2019. Mae Andrew yn gadael gwaddol gadarn o ran ein gwerthoedd sefydliadol, sef Gofalu am ein Gilydd, Gweithio gyda'n Gilydd a Gwella Bob Amser. Fe hyrwyddodd y rhain yn ddiflino drwy gydol ei gyfnod yn y swydd ac rydym yn benderfynol y dylent barhau'n greiddiol i'n hymddygiad a'n hymagwedd. Yn dilyn ymadawiad Andrew, penodwyd Emma yn Gadeirydd dros dro. Yn dilyn proses ddethol drwyadl, cafodd ei chadarnhau'n Gadeirydd parhaol yn Ebrill 2019.

Dywedodd Emma: **"Mae'n anrhydedd ac yn gyfrifoldeb mawr cael fy mhenodi'n Gadeirydd parhaol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.**

"Rwy'n parhau'n obeithiol iawn am y cyfleoedd ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda chi a'ch cefnogi; nid yn unig drwy'r argyfwng presennol ond hefyd er mwyn iechyd a lles hirdymor pawb sy'n byw ac yn gweithio ar draws ein rhanbarth."

Cymerodd Martyn Waygood le Emma yn rôl yr Is-gadeirydd dros dro ac roeddem hefyd yn falch iawn o groesawu Nuria Zolle fel ein haelod annibynnol trydydd sector.

O ran ein cyfarwyddwyr gweithredol, gadawodd Sandra Husbands, Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, a Lynne Hamilton, y Cyfarwyddwr Cyllid, a ymddeolodd yn Chwefror 2020.

Roeddem yn falch o groesawu Keith Reid fel Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus; roedd hynny dros dro i ddechrau ac yna, yn dilyn proses recriwtio, cafodd ei benodi'n barhaol yn Rhagfyr 2019.

Mae Darren Griffiths wedi ymgymryd â rôl y Cyfarwyddwr Cyllid dros dro ac rydym yn ddiolchgar iddo am gefnogi'r Bwrdd Iechyd yn ystod y cyfnod hwn.



Prisio a Gwerthfawrogi ein Staff

'Mae profiad gwych gan staff yn golygu profiad gwych gan gleifion ac mae pob rôl yn cyfrif!'

Mae'r ymgyrch **#BywEinGwerthoedd** (a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2019) yn gwahodd staff i arwyddo cerdyn adduned sy'n disgrifio sut maent yn byw'r gwerthoedd sefydliadol. Mae'r ymgyrch yn gynhwysol ac yn annog pob cornel o'r sefydliad i gyfrannu, o'r wardiau i'r byrddau, yn cynnwys strwythurau'r pwyllgorau, uwch dimoedd yr unedau a grwpiau partneriaeth undebau llafur.

Hyd yn hyn, mae dros 800 o addunedau wedi'u harwyddo gan gyfuniad o dimoedd ac unigolion, gyda thros 30 o weithdai #BywEinGwerthoedd wedi eu cynllunio a mesurydd addunedau wedi ei greu i fesur faint o addunedau sy'n cael eu derbyn.

Lansiwyd y gwobrau *Byw ein Gwerthoedd: Dathlu yn Null Bae Abertawe* fel rhan o raglen o gydanabod a gwobrwyo, a byddant yn cael eu defnyddio i ddod â'r sefydliad yn ôl at ei gylydd a dathlu'r hyn a fydd wedi'i gyflawni drwy gydol pandemig Covid-19.


Cyflwynwyd *The Guardian Service* hefyd ym mis Mai 2019, a hynny fel cynllun peilot am flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth annibynnol, cyfrinachol ac anfarnol i staff sy'n codi pryderon ac mae'n canolbwyntio ar weithio gydag unigolion a'r sefydliad i ddod i benderfyniadau, gan fod ar gael 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn. Y Bwrdd Iechyd yw'r cyntaf yng Nghymru i dreialu'r model gwasanaeth hwn.

Mae Gwobrau Dewis y Claf yn parhau i roi cyfle i gleifion, gofalwyr, perthnasau ac ymwelwyr ddweud eu barn ac enwebu aelod o staff sydd, yn eu tyb nhw, wedi gwneud gwir wahaniaeth ac wedi mynd yr ail filltir. Cafodd 194 o aelodau o staff, timoedd a wardiau eu cydnabod eleni yn ystod pump o ddigwyddiadau ar draws y prif ysbytai, gydag un digwyddiad ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yn cael ei gynnal ar y cyd â gwasanaethau cymdeithasol.

Nyrs y Flwyddyn



Jean Saunders, crowned as the Royal College of Nursing Wales Nurse of the Year for her work to support asylum seekers in her care. It demonstrates the importance we place on patient care and experience, as well as equality and diversity, so to not only have one of our nurses celebrated in this way this, but to have others shortlisted, is a wonderful achievement.



Datblygu Galluoedd a Galluogrwydd ar gyfer Arwain

Mae ein rhaglenni datblygu ar gyfer arweinwyr yn parhau i gael eu hehangu. Ar ôl cyflwyno 'Footprints', sef y rhaglen ar gyfer rheolwyr canol, datblygwyd rhaglenni pellach ar gyfer y rhai sydd mewn rolau arwain uwch, yn ogystal ag ar gyfer darpar reolwyr neu ddarpar arweinwyr timoedd, sef 'Bridges' ac 'Impact'. Hyd yn hyn, mae dros 1,300 o bobl wedi dilyn un o'r rhaglenni hyn.

Cynhaliwyd tair Uwchgynhadledd Arweinyddiaeth hefyd, ac roedd cael cyfuniad o siaradwyr mewnol ac allanol yn sicrhau bod y digwyddiadau hyn yn atyniadol, yn addysgiadol ac yn canolbwyntio ar y syniadau diweddaraf mewn arferion arwain da, gan wneud yn siŵr bod ein staff yn cael eu cefnogi i ddarparu gofal ardderchog i'r claf.

Mae arweinyddiaeth glinigol hefyd wedi bod yn ganolbwynt eleni ac rydym wedi lansio ein Rhaglen Ddatblygu ar gyfer Ymgynghorwyr. Mae bellach yn derbyn ei thrydedd garfan, gyda 37 o ymgynghorwyr wedi cofrestru hyd yn hyn.

Nid oes dwywaith i'n Prif Swyddog Gweithredol, Tracy Myhill, arwain drwy esiampl yn 2019, gan ennill dwy wobwr am arweinyddiaeth. Y wobwr gyntaf oedd Gwobr yr Arweinydd yng Ngwobrau Chwarae Teg, sef *Womenspire*. Yr ail wobwr oedd y categori Arweinyddiaeth yn y Sector Cyhoeddus yng Ngwobrau Arwain Cymru. Dywedodd y beirniaid ar gyfer Gwobrau Arwain Cymru fod Tracy'n "...arwain o'r galon...", gan ei disgrifio'n unigolyn "diymhongar, diffuant ac ysbrydoledig".

Cefnogi Iechyd a Lles Staff

Mae darparu grwpiau'n seiliedig ar feddylgarwch a chysiau 'Rheoli eich Lles' wedi cefnogi iechyd a lles staff, a'u cefnogi i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl bod yn absennol oherwydd salwch. Cefnogwyd rheolwyr i ddeall iechyd meddwl yn y gweithle ac mae'r tîm wedi darparu hyfforddiant ar y defnydd o'r safonau ar gyfer straen er mwyn gallu rhoi cefnogaeth fuan i staff sy'n profi straen yn y gweithle.

O ganlyniad i fwy o waith mewn partneriaeth ag Amser i Newid Cymru er mwyn lleihau'r stigma a'r gwahaniaethu sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl yn y gweithle, gwelwyd gwirfoddolwyr yn rhannu eu straeon personol am oresgyn materion yn ymwneud ag iechyd meddwl ac am aros yn y gwaith neu ddychwelyd i'r gwaith. Arwyddodd y Prif Weithdwr adduned Amser i Newid Cymru ar ran y Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2019, gan ddangos yr ymrwymiad i'r ymgyrch hon.

Yn sgil wythnos les lwyddiannus ym mis Medi 2019, gwelwyd staff yn manteisio ar amrywiaeth o adnoddau addysgiadol a rhyngweithiol.

Ar gyfer 2019-20, diweddarwyd ymgyrch farchnata am y fflw i staff, gan ddefnyddio'r thema 'Mae'r Gaeaf yn Dod'. Bu'r ymgyrch hon, ynghyd â rôl newydd ar gyfer Cydlynnydd Ymgyrch Fflw i Staff, o gymorth i gynyddu'r nifer a gafodd eu brechu rhag y fflw i 58.6% o staff rheng flaen, gyda bron 9,000 yn cael eu brechu.



Mae ein Bwrdd Iechyd yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth 'Cymorth yn y Gwaith' a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth iechyd meddwl a chyhyrsgerbydol i gefnogi gweithwyr lleol sy'n gweithio mewn busnesau bach i ganolig eu maint.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i drin pawb yn deg yn ogystal â blaenoriaethu ei ddyletswydd i:

- Ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddwch ac erledigaeth;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu;
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

Y naw 'nodwedd warchodedig' yw:

1. Oedran
2. Anabledd
3. Ailbennu rhywedd
4. Beichiogrwydd a mamolaeth
5. Hil
6. Crefydd neu gredo
7. Rhyw
8. Cyfeiriadedd rhywiol
9. Priodas a phartneriaeth sifil (mewn perthynas â chael eu trin yn wahanol yn y gwaith).

Mae enghreifftiau o'r uchafbwyntiau allweddol mewn perthynas â chydaddoldeb ar gyfer 2019-20 yn cynnwys y canlynol:

- Ynghyd â Chyngor Abertawe, enillodd y Tîm Lles ar gyfer Gofal Sylfaenol Plant a Theuluoedd y categori Gwella Iechyd a Lles yng Ngwobrau GIG Cymru 2019 am eu gwaith i leihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn ward Penderi, sef ward sy'n cynnwys rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas;
- Yn y gynhadledd gydweithredol ar Amrywiaeth a Chynhwysiant gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, sef 'Dyma Fi', dathlwyd yr amrywiaeth yn ein gweithlu a hyrwyddwyd gweithle cynhwysol i bawb.
- Fe wnaeth Calon, sef rhwydwaith staff LGBT+ a chyngrheiriaid y Bwrdd Iechyd, ymuno â chydweithwyr GIG Cymru yn Pride Abertawe a Pride Cymru.
- Sefydlwyd rhwydwaith newydd ar gyfer pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig i wella dealltwriaeth ddiwylliannol, gwella'r cymorth i staff a rhoi hwb i ofal cleifion ar draws y Bwrdd Iechyd. Cafodd ei lansio mewn digwyddiad yn ystod Mis Hanes Pobl Ddu i ddathlu amrywiaeth ethnig a diwylliannol yn Ysbyty Treforys.
- Trefnodd staff Bae Abertawe ddigwyddiad ar raddfa fawr yn y ganolfan hamdden i nodi Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd. Cynrychiolwyd mwy na 60 o grwpiau a sefydliadau gan ddangos yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i bobl y mae angen cymorth arnynt.
- Lansiodd y Bwrdd Iechyd 'Project SEARCH' sy'n cynnig profiad gwaith mewn amrywiaeth o adrannau i interniaid ag anableddau dysgu wrth iddynt ennill cymwysterau gyda Choleg Gŵyr.
- Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi ar ymwybyddiaeth o drawsrywioldeb a thrawsrywedoldeb drwy'r Bwrdd Iechyd gan Stonewall Cymru i helpu staff gael dealltwriaeth sylfaenol o hunaniaeth a therminoleg yn ymwneud â rhywedd.

Yr Iaith Gymraeg

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i wneud y Gymraeg mor weladwy a hygyrch â phosibl. Lluniwyd cynllun gweithredu, yn seiliedig ar y cydweithio a wneir â byrddau iechyd eraill, i gyflawni'r gofynion angenrheidiol yn ystod 2019/20 ac ymlaen i 2020/21.

Ym mis Mawrth 2020, cydnabuwyd mewn adroddiad ar Safonau'r Gymraeg fod llawer iawn mwy i'w wneud er mwyn gwella ein gwasanaethau Cymraeg, er y gwnaed cynnydd da.

Yn nhymor yr hydref 2020, bydd adroddiad blynyddol llawn yn nodi sut rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar gael ar ein gwefan.

Elusen Iechyd Bae Abertawe

Eleni hefyd, lansiwyd ein hadran codi arian ein hunain. Mae'r tîm yn cefnogi'r elusen iechyd mewn ymgais i gefnogi cleifion, staff a gwasanaethau o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Nid yw elusen iechyd Bae Abertawe yn disodli cyllid y GIG ond yn hytrach yn defnyddio'r rhoddion hael a dderbynnir gan gleifion, eu teuluoedd, staff a chymunedau lleol i ddarparu'n ychwanegol i'r hyn y gall y GIG ei wneud.

Bydd yr elusen yn rheoli tua 275 o gronfeydd ar gyfer offer, ymchwil, hyfforddiant a gofal cleifion, gan roi'r cyfle i'r rheini sy'n cyfrannu nodi lle yr hoffent i'r arian fynd.



ELUSEN IECHYD
BAE ABERTAW
SWANSEA BAY
HEALTH CHARITY

Trawsnewid Digidol

Mae ein strategaeth sefydliadol, 'Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywydau Gwell', yn nodi y bydd y sefydliad yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd digidol ac yn eu defnyddio i drawsnewid sut y caiff iechyd pobl ei wella a sut y darperir gofal.




Yn ystod 2019-20, mae ein strategaeth ddigidol wedi sefydlu pum rhaglen trawsnewid digidol er mwyn cyflawni newidiadau, yn ogystal â nifer o raglenni galluogi digidol hanfodol i gefnogi'r gwaith. Mae cyflymder a graddfa'r trawsnewid digidol wedi bod yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r uchafbwyntiau wedi cynnwys:

- Porth Cleifion Bae Abertawe - adnodd digidol sy'n gadael i'n dinasyddion weld eu cofnodion gofal eu hunain, gan eu grymuso i gymryd mwy o gyfrifoldeb a chwarae rhan weithredol yn eu gofal;
- Byrddau Gwyn Electronig (Signal) – byrddau digidol sy'n disodli'r byrddau gwyn traddodiadol ar y wardiau, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth fyw ar gael ar gyfer pob claf yn ein hysbytai;
- Staff cymunedol - mae gan ein holl staff cymunedol ddefnydd o iPad i'w helpu i weithio'n fwy effeithlon a chael mwy o amser i gleifion;
- Moderneiddio Cofnodion Iechyd - cyflwyno tagiau electronig ar gofnodion papur cleifion. Mae hyn wedi gwella effeithlonrwydd ac effeithlonrwydd cofnodion papur wrth i ni drosglwyddo o'r rhain i gofnodion electronig;
- Galluogi gwybodaeth busnes a dadansoddi busnes – cyflymu'r defnydd o fyrddau dadansoddi a byrddau gwybodaeth busnes ar draws y sefydliad i gefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.



DESTINATION: DIGITAL
DYFODOL: DIGIDOL



Ein Dull o Weithredu Deddf Lesiant **Cenedlaethau'r Dyfodol**

Ein Hamcanion Llesiant yw:

- Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn;
- Cysylltu cymunedau â gwasanaethau a chyfleusterau;
- Cynnal iechyd, annibyniaeth a chydnerthedd cymunedau o unigolion, cymunedau a

theuluoedd.

Ym mis Mai 2019, cynhaliwyd Sesiwn Datblygu'r Bwrdd yng nghwmni Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ystyried sut y gallai'r sefydliad wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac egwyddorion y Ddeddf yn ei feddylfryd a'i weithredoedd drwy bopeth y mae'r sefydliad yn ei wneud.

Mae'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn yn cynnwys gweithio'n uniongyrchol gyda chydweithwyr i sefydlu hyfforddiant cenedlaethol pwrpasol ar gyfer nyrsys ysgol; gweithio gyda chymunedau mewn cymdogaeth i 'adeiladu ar yr hyn sy'n gryf, yn hytrach nag ar yr hyn sydd o'i le'; a'n Bwrdd Iechyd yn defnyddio ein hamgylchedd i wella iechyd corfforol a meddyliol.

Strategaeth Sefydliadol

Ein huchelgeisiau a'n cyfleoedd ar gyfer y flwyddyn a aeth heibio a thu hwnt yw:

- Chwarae rhan lawn yn yr economi iechyd leol a rhanbarthol;
- Cynyddu'r ffocws ar wella iechyd a lles y boblogaeth;
- Integreiddio gwasanaethau â phartneriaid yn y cymunedau;
- Sicrhau cynaliadwyedd a sicrhau y cyflawnir gofal o ansawdd uchel yn gyson;
- Cefnogi gwell iechyd a lles drwy fynd ati i hyrwyddo a grymuso pobl i fyw'n dda mewn cymunedau cydnerth;
- Darparu gwell gofal drwy wasanaethau iechyd a gofal rhagorol gan gyflawni'r canlyniadau sydd bwysicaf i bobl.

Cynllun Gwasanaethau Clinigol

Cafodd ein rhaglen bum mlynedd i drawsnewid y gwasanaethau iechyd a gofal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ei chymeradwyo gan ein Bwrdd ym mis Ionawr 2019.

Mae'n disgrifio sut y caiff gwasanaethau lles, sylfaenol a chymunedol eu trawsnewid i fod yn sail ar gyfer newid sylweddol mewn gwasanaethau yn y prif ysbytai, gan eu galluogi i neilltuo eu harbenigeddau i ddiwallu anghenion y rhai y mae angen eu gofal arnynt fwyaf, yn enwedig y rhai eiddil, yr henoed a'r rhai sy'n ddifrifol wael.




Rhaglen Trawsnewid

Sefydlwyd y Bwrdd Trawsnewid yn ffurfiol ym Mai 2019. Mae'n cyfarfod bob mis ac yn cynnwys holl aelodau'r Bwrdd Gweithredol ynghyd â nifer fach o arweinwyr rhaglenni, a chaiff ei gadeirio gan ein Prif Weithredwr.

Mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar ddatblygu dull a methodoleg integredig ar gyfer trawsnewid o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Bydd y dull yn pennu:

- The approach to improvement – how does our organisation systematically develop the right skills, mind-set, and tools to embed continuous improvement within the Board and how do we align our specialist resources with the overall goals and priorities of the organisation, including our quality priorities.
- An approach to standardised project management was established during 2019 and there are now around 50 trained Prince2 managers in the organisation.

- 
- Value-based healthcare work has accelerated since June 2019 and the work programme is now fully aligned with the national strategic direction with a focus on developing an integrated approach so that there is synergy between the improvement approach and the work being taken forward around value.

Rheoli Risgiau

Y prif risgiau a effeithiodd ar y broses o gyflawni perfformiad yn ein Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd pandemig Covid-19.

Sefydlwyd strwythur trefn reoli aur yn gyflym i reoli ymateb y Bwrdd Iechyd a rhoddwyd y gorau i'r holl wasanaethau nad ydynt yn rhai brys, fel cleifion allanol a llawdriniaethau dewisol.

Bydd yr angen i ymateb i'r pandemig a dod drosto'n parhau drwy gydol 2020-21 a thu hwnt, o ran ein sefydliad a'r gymuned yn ehangach.

Profodd y Bwrdd Iechyd lefelau digynsail o bwysau o ran Gofal Heb ei Drefnu drwy gydol y flwyddyn. Golygai hyn fod angen canslo triniaethau gofal wedi'u cynllunio er mwyn ymdrin â'r achosion brys, a effeithiodd ar ein gallu i gyflawni mewn perthynas â gofal wedi'i gynllunio.


Oherwydd newidiadau a wnaed i bensiynau gan Gyllid a Thollau EM, ni allai'r gwasanaeth anesthetig weithio'n hyblyg mwyach; fe wnaeth nifer o feddygon ymgynghorol ostwng nifer eu sesiynau i'r lleiafswm, ac effeithiodd hyn ar nifer yr achosion o ofal wedi'i gynllunio.

Yn ariannol, dechreuodd y Bwrdd Iechyd y flwyddyn gan ragweld y byddai'r gyllideb yn cael ei mantoli, ond oherwydd pwysau gweithredol, annarbodion maint yn dilyn newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr, a chynnydd mewn costau gofal iechyd parhaus, cafwyd diffyg o £16.3m ar ddiwedd y flwyddyn.

O ran y gweithlu, oherwydd heriau'n ymwneud â recriwtio, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu gyda nifer o swyddi gwag, sydd wedi cynyddu ei ddibyniaeth ar staff asiantaeth a staff banc.

Crynodeb o Berfformiad

Gofal Sylfaenol



393,602 o
gofrestriadau
ym
mhractisau
meddygon
teulu BIPBA

Mae **88%** o
bractisau
meddygon teulu'n
cynnig apwyntiadau
dyddiol rhwng
17:00 a 18:30

17,828 o gleifion
wedi derbyn gofal
gan Archwiliadau
Iechyd Llygaid
Cymru (EHEW)

(Ebr-19 hyd Chwef-20)

278,608 o gleifion
deintyddol y GIG
wedi eu trin

(cyfanswm o 2 flynedd hyd
at Fedi-19)

Unscheduled Care



180,302 o
dderbyniadau
newydd i
adrannau
Damweiniau
ac Achosion
Brys

25,648 o
ambiwlansys
yn cyrraedd


70,924 o
dderbyniadau
brys

3,557 o
achosion o
drawma

537 o
dderbyniadau
yn sgil strôc

(Ebr-19 hyd Chwef -
20)

Planned Care



232,338 o
atgyfeiriadau am
apwyntiadau ar
gyfer cleifion
allanol newydd

16,601 o
apwyntiadau
cleifion allanol a
gollwyd (heb
ddod i'r
apwyntiadau)

15,790 o
atgyfeiriadau
brys yn sgil
amheuaeth o
ganser

28,179 -
cyfanswm y
llawdriniaethau a
wnaed

171,039 o
bresenoldebau
gan gleifion
allanol newydd a
341,039 o
ymweliadau
dilynol

11,905 o
llawdriniaethau
wedi'u canslo

3,706 o
bresenoldebau
iechyd meddwl
newydd a **19,029**
o ymweliadau
dilynol

2,468 o gleifion
canser newydd
eu diagnosio a
gafodd driniaeth

Dadansoddiad o Berfformiad

Mae dadansoddiad cynhwysfawr o'n perfformiad yn erbyn Fframwaith Canlyniadau a Chyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol llawn.


Blaenoriaethau ar gyfer Ymyrraeth wedi'i Thargeddu

Cafodd y Bwrdd Iechyd ei osod ar lefel Ymyrraeth wedi'i Thargeddu gan Lywodraeth Cymru yn 2016 fel rhan o drefniadau dwysáu ac ymyrryd GIG Cymru.

Mae ein Bwrdd Iechyd yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar y blaenoriaethau ar gyfer ymyrraeth wedi'i thargeddu, drwy adroddiadau perfformiad rheolaidd a thrwy reoli perfformiad strwythuredig. Roedd pob un o'r blaenoriaethau sydd wedi'u targedu yn greiddiol i Gynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd yn 2019-20 ac maent yn parhau'n elfennau allweddol yng Nghynllun Blynyddol 2020-21.

Imiwneiddio Plant

Gwnaed cynnydd da drwy gydol y flwyddyn i gynyddu cyfraddau imiwneiddio plant. Rhwng Ebrill 2019 a Rhagfyr 2019, derbyniodd 2,690 (96%) o blant dri dos o'r brechlyn 'chwech mewn un' erbyn eu bod yn flwydd oed. Cafodd 2,867 (92%) o blant ddau ddos o frechlyn MMR (y frech goch, clwy'r pennau a rwbela) erbyn eu bod yn bump oed. Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd y targed o 95% ar gyfer MMR i blant pum mlwydd oed ond methodd â chyrraedd y 95% ar gyfer y brechlyn 'chwech mewn un' ar gyfer plant blwydd oed.



Brechu rhag y Ffliw

Nid oedd y data cyflawn ar gyfer y nifer a fanteisiodd ar frechiad rhag y fflw ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae data mewnol yn awgrymu i'r Bwrdd Iechyd ond syrthio ychydig yn brin o'r targed o 60% ar gyfer gweithwyr gofal iechyd, gan gyrraedd 59%. Mae data mewnol yn awgrymu bod y targed ar gyfer nifer y plant rhwng dwy a thair oed a gafodd eu brechu rhag y fflw wedi'i gyflawni yn 2019-20. Fodd bynnag, ni chyflawnwyd y targedau ar gyfer pobl dros 65 oed, nac ar gyfer pobl o dan 65 mewn grwpiau risg.

Mesurau Rhagnodi Cenedlaethol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i leihau'r nifer gyffredinol o wrthfotigau ac eitemau gwrthfacterol sy'n cael eu rhagnodi.




Atal a Rheoli Heintiau

Mae rheoli heintiau a lleihau nifer yr heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd yn flaenoriaeth ymyrraeth wedi'i thargeddu i ni. Llwyddwyd i gyflawni pob un o'n proffiliau lleihau mewnol yn 2019-20. Er i ostyngiadau gael eu gwneud o ran cyfraddau HGGI (heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd) ar gyfer pob un o'r mesurau cenedlaethol dros y 12 mis diwethaf, mae angen canolbwyntio ymhellach ar hyn er mwyn cyflawni'r targedau a bennwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn unol â phob bwrdd iechyd ledled Cymru.

Mesurau ar gyfer Gofal Llygaid

Dechreuwyd adrodd am y mesur gofal llygaid newydd yn 2019-20. Mae'n seiliedig ar flaenoriaethu gofal ac ar frys y gofal sydd ei angen ar bob claf. Rydym wedi gwneud cynnydd cyson yn erbyn y targed hwn, gan gynyddu o 67% ym mis Ebrill 2019 i 76% ym mis Mawrth 2020, ac rydym yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan.



Canser

Mae prydlondeb y triniaethau a gynigir i gleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser ym Mae Abertawe drwy'r llwybr brys lle ceir amheuaeth o ganser, a'r llwybr nad yw'n un brys lle ceir amheuaeth o ganser, wedi cymharu'n dda ar y cyfan â byrddau iechyd eraill ledled Cymru.

Ym mis Mawrth 2020, gwnaeth 85% o gleifion canser a atgyfeiriwyd gan eu meddyg teulu ar frys oherwydd amheuaeth o ganser ddechrau ar eu triniaeth o fewn 62 diwrnod i'w hatgyfeirio, yn erbyn safon ddisgwyliedig o 95%. Yn ogystal â hyn, gwnaeth 93% o gleifion nad oeddent ar y llwybr brys lle cafwyd amheuaeth o ganser, ddechrau ar eu triniaeth o fewn 31 diwrnod ar ôl iddynt gytuno i'r angen am driniaeth.



Cafwyd nifer o gyflawniadau yn 2019/20, yn cynnwys sefydlu'r Ganolfan ar gyfer Diagnosis Cyflym yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Dangosodd gwerthusiad o'r gwasanaeth fod amseroedd aros ar gyfer rhai cleifion wedi gostwng hyd at 92%.

Rydym wedi cynyddu ein capasiti ar gyfer llawfeddygaeth a radiotherapi drwy weithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill y GIG, ac rydym wedi datblygu achos busnes ar gyfer rhaglen ganser a fydd yn moderneiddio ac yn gwella'r gwasanaethau a ddarperir yng Nghanolfan Ganser De Cymru.

Iechyd Meddwl

Mae byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol yn cydweithio i sefydlu Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (LPMHSS) i ddarparu:

- Asesiadau
- Ymyriadau tymor byr
- Gwybodaeth a chyngor
- Atgyfeiriadau at wasanaethau eraill, lle y bo'n briodol

Cyflawnwyd yr 80% gennym ar gyfer 10 allan o'r 12 mis. Cyrhaeddwyd y targed gennym bob mis ac eithrio CAMHS. Darperir CAMHS ar ein rhan gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac rydym wrthi'n gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu o ran amseroedd aros i bobl ifanc dan 18 oed.



Adolydiadau o Farwolaethau Cyffredinol

Mae Gwasanaeth Iechyd Cymru wedi gwneud gwaith arloesol i sicrhau bod adolygiadau'n cael eu cwblhau o gofnodion clinigol cleifion sy'n marw mewn ysbytai. Drwy gydol 2019-20, bodlonodd y Bwrdd Iechyd y targed cenedlaethol o 95% ar gyfer y mesur hwn, ac roeddem yn aml yn rhagori ar y targed hwnnw, gan ddangos y perfformiad gorau o blith y byrddau iechyd yng Nghymru.

Oedi wrth Drosglwyddo Gofal



Mae achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn parhau'n her i lawer o fyrddau iechyd ledled Cymru. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar leihau cyfnod pobl yn yr ysbyty, ond hefyd ar leihau'r nifer sy'n ddigon iach i'w cael eu rhyddhau ac nad yw o'r budd pennaf iddynt fod mewn gwely yn yr ysbyty.

Un o brif achosion yr oedi mewn ambiwlansys yw'r llif (o ran rhyddhau gwelyau) drwy'r ysbyty ac er gwaethaf y gwelliannau wrth y 'drws ffrynt', mae oedi wrth y 'drws cefn' yn parhau'n ffactor allweddol sy'n cyfrannu at hyn. Yn 2019-20, mewn partneriaeth â'n cydweithwyr mewn awdurdodau lleol, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd y llwybrau 'Adre o'r Ysbyty' er mwyn cefnogi llif mwy amserol o ran trosglwyddo cleifion o'r ysbyty i'r gymuned.

Mae 'Adre o'r Ysbyty' yn wasanaeth sy'n cwmpasu lles corfforol a meddyliol unigolion a theimlir y bydd gan y gwasanaeth hwn y potensial i wneud y defnydd gorau o'r capasiti gofal cymdeithasol presennol er mwyn cael yr effaith orau a sicrhau bod llif ar draws y system.

Cafodd cam un 'Adre o'r Ysbyty' ei weithredu ar gyfer cleifion llai cymhleth ym mis Rhagfyr 2019 ac mae'r ffigurau cychwynnol yn dangos y cafwyd effaith gadarnhaol ar gleifion sy'n ddigon iach yn feddygol i'w rhyddhau.

Codio Clinigol


Rydym wedi gwella'n sylweddol ein cydymffurfiaeth â'r mesur codio sy'n ymwneud â chanran y digwyddiadau a gaiff eu codio'n glinigol o fewn mis, gan gynyddu perfformiad o lefel mor isel ag 20% yn 2016 i 94% ym mis Mawrth 2020.



Cwynion

Yn ystod 2019-20, derbyniodd y Bwrdd Iechyd dros 1,300 o gwynion ac roedd y prif themâu yn ymwneud â chyfathrebu, derbyniadau a thriniaeth glinigol. Drwy gydol 2019-20, cafodd 100% o gwynion eu cydnabod o fewn dau ddiwrnod gwaith, a phob mis gwnaethom gyflawni'r targed cenedlaethol o ddarparu ymateb terfynol i gwynion o fewn 30 diwrnod gwaith.

Cynialadwyedd



Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am 67 o safleoedd sy'n cynnwys tri ysbyty aciwt, pedwar ysbyty cymunedol, clinigau, canolfannau iechyd ac unedau anableddau dysgu, yn ogystal â thri adeilad cefnogi cysylltiedig lle nad oes mynediad uniongyrchol i gleifion, sy'n cynnwys y pencadlys a golchdy canolog.

Mae pob un o'r chwe safle y mae angen ardystiad Rheoli Amgylcheddol ISO14001 arnynt, wedi llwyddo i'w gadw yn 2019-20.

Targedau Amgylcheddol

Rydym yn fwy na chwrdd â'n targedau amgylcheddol ar gyfer gwastraff, trydan, a nwy a ddŵr ar gyfer 2019-20, er bod y canlyniadau yn bennaf oherwydd y gostyngiad ym maint y portffolio adeiladu yn dilyn newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae maint gwastraff cyffredinol ein Bwrdd Iechyd wedi gostwng 23.22%

Mae cyfanswm y defnydd o drydan wedi gostwng 24%

Mae cyfanswm y defnydd o nwy wedi gostwng 20%

Mae cyfanswm y defnydd o ddŵr wedi gostwng 34%

Datblygiad Cynaliadwy

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwmo'n llwyr i leihau ei ôl troed carbon ac mewn blynyddoedd blaenorol cyflawnodd a chadwodd ardystiad ISO14001:2015 ar gyfer y systemau rheoli amgylcheddol yn ei holl ysbytai. Mae hyn yn dangos yr ymrwymiad i sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a rheoliadol.

Prosiectau Gwyrdd



Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ei gydweithio â phartneriaethau lleol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r posibilrwydd o brynu'r hawliau ar gyfer fferm solar a gwifren breifat o fferm solar fawr a leolir tua dwy filltir o Ysbyty Treforys.

Seilwaith Gwyrdd - ers i Ddeddf Llesiant

Cenedlaethau'r dyfodol gael ei chyflwyno, rydym wedi mynd ati i ymgysylltu â chyrrff eraill yng Nghymru sy'n gyfrifol am warchod yr amgylchedd naturiol er mwyn hyrwyddo seilwaith gwyrdd o fewn y Bwrdd Iechyd a chyfrannu at ein hamcanion llesiant.

Cyllid 'Dewis y Bobl' gan y Loteri Genedlaethol - llwyddodd ein Bwrdd Iechyd i sicrhau grant gan y Loteri Genedlaethol a weinyddir gan Cadwch Gymru'n Daclus, a derbyniodd £50,000 i wella dwy iard yn ysbytai Treforys a Gorseinon.

Sefyllfa Ariannol

Fe wnaethom gynnal ein ffocws ar adferiad a chynaliadwyedd yn ystod 2019-20 a datblygu ein hagenda gweddnewidiol ymhellach drwy nodi cyfleoedd o werth uchel. Drwy adferiad a chynaliadwyedd, llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni £19m o'r arbedion gofynnol o £22m, a oedd yn lefel uwch o gyflawniad nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Yn ystod 2019-20, fodd bynnag, profodd y Bwrdd Iechyd bwysau sylweddol ar ei wasanaeth, a arweiniodd at ddiffyg o £16.3m yn cael ei adrodd ar ddiwedd y flwyddyn.

Wrth symud ymlaen, mae uchelgais a ffocws clir ein Bwrdd Iechyd ar ddatblygu a chyflwyno cynllun ariannol cynaliadwy a chytbwys. Fel y gellid ei ddisgwyl, mae ein hymateb fel sefydliad i Covid-19 wedi effeithio ar y dull gweithredu hwn, ond mae'r uchelgais o ran cael cynllun ariannol cynaliadwy ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn dal i fod yn gadarn, gyda





phwyslais ar reoli pwysau costau ac osgoi costau; datblygu a chyflawni arbedion drwy gynlluniau lleol; gweddnewid; dulliau cyflawni ariannol diwygiedig a chyfleoedd effeithlonrwydd allweddol.

Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau a drafodir yn yr adroddiad hwn, gweler ein hadroddiad blynyddol llawn, sydd ar gael o dan yr adran ‘Amdanom Ni: Dogfennau Allweddol’ ar ein gwefan: <https://bipba.gig.cymru/>

DILYNWCH NI AR:



@Swanseabay.nhs



@SwanseabayNHS



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board



**I GAEL RHAGOR O WYBODAETH AM Y PYNCIAU A DRAFODIR YN YR ADRODDIAD HWN,
GWELER EIN HADRODDIAD BLYNYDDOL LLAWN, SYDD AR GAEL O DAN YR ADRAN 'AM-
DANOM NI: DOGFENNAU ALLWEDDOL' AR EIN GWEFAN: [HTTPS://BIPBA.GIG.CYMRU/](https://bipba.gig.cymru/)**